Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM

# Swydd Ddisgrifiad (SDd) – Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)

# NPS Band 3

# Cyfarwyddiaeth: Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS)

# Swydd Ddisgrifiad: Rheolwr Dyddiadur (Rhanbarth, Swyddogaeth a Chlwstwr)

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod y Ddogfen** | NPS-JES-0048_ Pay Band 3 Diary Manager (Division, Function & Cluster)_v4.0 |
| **Math o Ddogfen** | Rheolaeth |
| **Fersiwn** | 4.0 |
| **Dosbarthiad** | Annosbarthedig |
| **Dyddiad Cyhoeddi** | 04/07/19 |
| **Statws** | Gwaelodlin |
| **Cynhyrchwyd gan** | Pennaeth y Grŵp |
| **Awdurdodwyd gan** | Tîm Gwobrwyo |
| **Tystiolaeth ar gyfer y SDd** | |

# Swydd Ddisgrifiad NPS

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd** | Rheolwr Dyddiadur (Rhanbarth, Swyddogaeth a Chlwstwr) |
| **Cyfarwyddiaeth** | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) |
| **Band** | 3 |

| | |
|---|---|
| **Trosolwg o'r swydd** | Mae hon yn rôl weinyddol ym mhencadlys rhanbarthol, clystyrau a swyddogaethau NPS. Bydd deiliad y swydd yn riportio i Ddirprwy Gyfarwyddwr NPS neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol fel sy'n briodol. |
| **Crynodeb** | Pwrpas y rôl yw darparu cefnogaeth ysgrifenyddol a gweinyddol i'r Dirprwy Gyfarwyddwr neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol drwy fod y prif bwynt cyswllt a chynorthwyo i reoli'r rhanbarth, y swyddogaeth neu'r clwstwr o ddydd i ddydd drwy gwblhau tasgau allweddol megis cydlynu dyddiaduron, casglu gohebiaeth a dogfennau a threfnu cyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu eraill.<br><br>Ni fydd gan ddeiliad y swydd gyfrifoldebau rheolaeth llinell. |

| | |
|---|---|
| **Cyfrifoldebau, Gweithgareddau a Dyletswyddau** | Bydd rhaid i ddeiliad y swydd gyflawni'r cyfrifoldebau, y gweithgareddau a'r dyletswyddau canlynol:<br>**Rheoli Dyddiadur y Dirprwy Gyfarwyddwr neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol**<br>• Cefnogi'r Dirprwy Gyfarwyddwr neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol i fodloni gofynion y busnes drwy eu cefnogi i ddatrys gofynion sy'n gwrthdaro o ran amserlenni cynllunio<br>• Cynnal dyddiadur y Dirprwy Gyfarwyddwr neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol yn effeithlon gan sicrhau bod rheolaeth amser yn cael ei optimeiddio<br>• Gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer y Dirprwy Gyfarwyddwr neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol , gan ddefnyddio blaengaredd ac ymateb i a/ neu gyfeirio ymholiadau at y partïon perthnasol<br>• Gweithredu fel pwynt sgrinio ar gyfer galwadau ffôn, gohebiaeth gyffredinol a negeseuon e-bost y Dirprwy Gyfarwyddwr neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol, gan amlygu gwaith sydd angen ei flaenoriaethu ac ymateb i ymholiadau gan ddefnyddio eich dealltwriaeth o brosesau cyflawni'r Gwasanaeth Prawf a'r map partneriaeth<br>• Darparu cefnogaeth a chymorth ysgrifenyddol a gweinyddol cynhwysfawr i'r Dirprwy Gyfarwyddwr neu Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol, a chynhyrchu ystod o ddeunyddiau o ohebiaethau i adroddiadau cyfrinachol cymhleth<br>• Datblygu a chynnal systemau ffeilio electronig a chyfrifiadurol cynhwysfawr a chyfredol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol y Gwasanaeth Prawf a storio a chael gafael ar ddata allweddol yn effeithiol<br>• Cynorthwyo gyda'r broses o lunio a chwblhau agendâu cyfarfodydd yn ogystal a goruchwylio'r gwaith o gydlynu a dosbarthu gwaith papur<br>• Cymryd cofnodion mewn cyfarfodydd uwch reolwyr a'u dosbarthu i bartïon perthnasol<br>• Cysylltu'n uniongyrchol â chydweithwyr a phartneriaid mewnol ac allanol i ddelio ag ymholiadau ac i gydlynu apwyntiadau ac ymrwymiadau<br>• Bod yn ymwybodol o'r newidiadau diweddaraf mewn partneriaethau allanol allweddol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau'r Gwasanaeth Prawf<br>• Cyfrannu at drefnu a chydlynu digwyddiadau rhanbarthol ar raddfa fawr<br>• Cydlynu a threfnu cyfarfodydd ar gyfer mynychwyr mewnol ac allanol, archebu ystafelloedd, trefnu lluniaeth, paratoi deunyddiau, cyfarch ymwelwyr ac ati<br>• Delio â materion sensitif iawn, gweithredu'n ddiplomyddol a chadw'n gaeth at gyfrinachedd bob amser |

| | |
|---|---|
| | • Trefnu teithiau busnes a llety ar gyfer y Dirprwy Gyfarwyddwr neu' Bennaeth y Swyddogaeth Weithredol<br>**Cyfathrebu'n effeithiol**<br>• Darparu gwybodaeth, adborth a chyngor<br>• Dylanwadu a pherswadio<br>• Cymryd rhan mewn cyfarfodydd lle bo'n briodol<br>• Defnyddio sgiliau, arddulliau a dulliau priodol<br>**Gwella eich perfformiad eich hun**<br>• Rheoli adnoddau a datblygiad proffesiynol eich hun<br>**Defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau allweddol**<br>• Cysylltu â staff i gael, casglu a dadansoddi gwybodaeth, drwy ddefnyddio systemau a llunio adroddiadau yn ôl yr angen<br>• Datblygu a defnyddio data i adnabod patrymau a thueddiadau a gweithredu'n briodol i gynnal a gwella perfformiad<br>• Cynllunio, gweithredu a rheoli systemau o ran cyfnewid gwybodaeth, data a chudd-wybodaeth sensitif<br>data a chudd-wybodaeth sensitif<br><br>Mae'r dyletswyddau/cyfrifoldebau a restrir uchod yn disgrifio'r swydd fel y mae ar hyn o bryd, ac nid yw'n rhestr gyflawn. Disgwylir i ddeiliad y swydd dderbyn addasiadau rhesymol a thasgau ychwanegol sydd ar lefel debyg a allai fod yn angenrheidiol. Os bydd addasiadau sylweddol mae'n bosib y bydd angen ystyried y swydd unwaith eto o dan y cynllun Gwerthuso Swydd, a thrafodir hynny â deiliad y swydd yn y lle cyntaf.<br><br>Y gallu i gyflawni pob agwedd lafar o'r rôl yn hyderus drwy gyfrwng y Saesneg neu (pan bennir yng Nghymru) yn y Gymraeg. |
| **Ymddygiadau** | • Gweithio gyda'n Gilydd<br>• Cyflawni ar Gyflymder<br>• Gwneud Penderfyniadau Effeithiol<br>• Newid a Gwella |
| **Cryfderau** | Cynghorir bod cryfderau yn cael ei dewis yn lleol, argymhellir 4-8 |
| **Profiad Hanfodol** | • Profiad o reoli dyddiadur uwch reolwr gweithredol<br>• Profiad o gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau cymorth rheoli |
| **Gofynion technegol** | NVQ Lefel 2 neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol (neu brofiad ymarferol perthnasol) Microsoft: Word, Excel, Outlook, a PowerPoint |
| **Gallu** | |

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau Gofynnol** | Bydd archwiliadau adnabod a diogelwch yn cael eu cynnal ar bob ymgeisydd cyn iddo/iddi gychwyn yn y swydd.<br><br>Bydd rhaid i bob ymgeisydd allanol gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Bydd rhaid i ymgeiswyr mewnol gwblhau cyfnod prawf os nad ydynt eisoes wedi cwblhau cyfnod prawf o fewn HMPPS.<br><br>Bydd rhaid i'r holl staff ddatgan a ydynt yn aelod o grŵp neu sefydliad sy'n cael ei ystyried yn hiliol gan HMPPS. |

| | |
|---|---|
| **Oriau Gwaith (Lwfansau am weithio oriau anghymdeithasol)** | 37 |

## Proffil Llwyddiant

| Ymddygiadau | Cryfderau<br><br>Cynghorir bod cryfderau yn cael ei dewis yn lleol, argymhellir 4-8 | Gallu | Profiad | Technegol |
|---|---|---|---|---|
| Gweithio gyda'n Gilydd | | | Profiad o reoli dyddiadur uwch reolwr gweithredol | NVQ Lefel 2 neu gymhwyster cyfwerth mewn pwnc perthnasol (neu brofiad ymarferol perthnasol) |
| Cyflawni ar Gyflymder | | | Profiad o gyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau cymorth rheoli | Sgiliau TG Microsoft: Word, Excel, Outlook, a PowerPoint |
| Gwneud Penderfyniadau Effeithiol | | | | |
| Newid a Gwella | | | | |